**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau**
**Cyfarfod Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**
**17 Chwefror 2025 am 09:30, yn 3.3 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Kate Young | (KY) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector). |
| Clare Jenkins | (CJ) | Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes |
| Karen Fitzgibbon | (KF) | Pennaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 2) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 6) |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Emily Mayers | (EM) | Rheolwr Strategol Cynllunio'r Gweithlu (ar gyfer eitem 2) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol – Ansawdd a Nyrsio |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd ochr staff |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 | | |

| Rhan A | |
|---|---|
| **PODC 1/2024.10.21** | **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
| Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.<br><br>**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Hydref 2024.<br><br>**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd. | |
| **PODC 1.1/2024.10.21** | **Datganiadau o Fuddiant** |
| Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. | |
| **PODC 1.2/ 2024.10.21** | **Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (09 Gorffennaf 2024)** |
| **Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2024.<br><br>**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gau'r tri cham gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod Gweithredu. | |
| **Mewn Ffocws / Archwiliad Dwfn** | |
| **PODC 2/ 2024.10.21** | **Archwiliad Dwfn - Cynllunio'r Gweithlu** |
| Cyflwynodd EM archwiliad dwfn i gynllunio'r gweithlu yn strategol, a oedd yn cynnwys y dull a ddefnyddiwyd i gynllunio'r gweithlu, yr allbynnau a'r camau gweithredu o gynlluniau cyfarwyddiaeth 2025, y cyflawniadau a wnaed dros y deuddeg mis diwethaf, a'r camau nesaf. Roedd y gwaith hwn yn gysylltiedig ag ymrwymiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) i sefydlu proses a fframwaith cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau clir, erbyn mis Mawrth 2025 i gyd-fynd â'r Strategaeth Hirdymor.<br><br>Tynnodd EM sylw at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cynllunio'r gweithlu a oedd yn cynnwys datblygu cynlluniau lefel Cyfarwyddiaeth a ddygwyd ynghyd i nodi themâu a chamau gweithredu ar draws y sefydliad. Roedd y cynlluniau hyn wedi'u hintegreiddio â chynlluniau gwasanaeth, ariannol ac addysg. Nododd EM hefyd fod sesiynau hyfforddi wedi'u darparu i gefnogi'r gwaith o integreiddio cynllunio'r gweithlu, ac i ddangos datblygiad pecyn cymorth pwrpasol yn seiliedig ar dempled Cymru Gyfan.<br><br>Darparodd EM grynodeb o'r allbynnau a dderbyniwyd o gynlluniau'r Gyfarwyddiaeth a gafodd eu categoreiddio fel a ganlyn:<br>• recriwtio a chadw staff<br>• dysgu a datblygu<br>• cynllunio ar gyfer newid<br>• cysylltiadau â blaenoriaethau strategol | |

Heb ei Gadarnhau

Nododd EM y camau nesaf o fis Ionawr 2025 ymlaen, a oedd yn cynnwys cefnogi Cyfarwyddiaethau i weithredu, monitro a gwerthuso eu cynlluniau gweithlu.

Diolchodd KY i EM am y cyflwyniad, a thrafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Pwysigrwydd deall y rhesymau pam bod staff yn gadael y sefydliad, oherwydd bod y Pwyllgor wedi trafod yn flaenorol y mater o adael rhesymau yn cael eu nodi fel 'arall'. Nododd EM y nod i weithio tuag at ddatblygu gyrfa fel bod disgrifiadau swydd yn safonol/cenedlaethol fel bod gan staff nodau clir i weithio tuag atynt.
- A oedd proffil oedran rolau/meysydd penodol wedi'i ystyried gan y gallai hyn gael effaith bwysig ar gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol. Soniodd EM fod y pecynnau cymorth yn cynnwys dangosfwrdd a oedd yn dangos y ddemograffeg ar gyfer pob maes i'w defnyddio wrth gynllunio'r gweithlu.
- Sut i ddatblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddenu staff o gymharu â chyflogau'r sector preifat. Tynnodd EM sylw at y ffaith bod diffyg hyblygrwydd rôl wedi'i grybwyll fel rheswm i staff adael ac y gallai fod rhywfaint o wahaniaeth ar draws timau o ran yr hyblygrwydd sydd ar gael.

Nododd NL y disgwylid adroddiad gan Archwilio Cymru a fyddai'n ymdrin â heriau'r gweithlu ar draws GIG Cymru, a thynnodd sylw at heriau sylweddol o fewn nyrsio a bydwreigiaeth. Nododd KF mai nod y gwaith ar adfywio a diwylliant Strategaeth Pobl fyddai hyrwyddo gwerthoedd cyflogwyr da.

Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd ymgysylltu ac integreiddio adborth ar y gwaith hwn gan y rhwydweithiau staff a'r rhaglen Pobl Ifanc.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y dull a ddefnyddiwyd i gynllunio'r gweithlu a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd.

| **Strategaeth Pobl** | |
|---|---|
| **PODC 3/ 2024.10.21** | **Diweddariad ar yr adolygiad o'r Strategaeth Pobl** |

Rhoddodd RA ddiweddariad llafar ar y cynnydd gyda'r adolygiad o'r Strategaeth Pobl. Nododd RA fod y strategaeth wedi lleihau o naw maes ffocws allweddol i bump ers i'r Strategaeth Pobl gael ei hystyried yn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr.

Roedd y camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr a luniwyd i gysylltu â staff a thimau a rhoi gwybodaeth iddynt, yn arwain at gyhoeddi'r strategaeth a'r Mapiau Llwybr.

Nododd NL y fantais o ddefnyddio data arolygon staff i lywio'r gwaith o adnewyddu'r strategaeth er mwyn rhoi sicrwydd i staff o gynnydd, a chytunodd KY ar bwysigrwydd cysylltu cyfeiriad diwylliannol y strategaeth â chyflwyno'r Mapiau Llwybr.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y dull gweithredu ac unrhyw feysydd i'w datblygu.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu**

Heb ei gadarnhau

| **PODC 4/2024.10.21** | **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** |
|---|---|

Cyflwynodd RA drosolwg o adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau (GPG) 2024 a diweddariad ar ddata Safon Cydraddoldeb Hiliol Cymru.

Roedd adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2025 er mwyn bodloni rhwymedigaeth statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Tynnodd RA sylw at y pwyntiau allweddol a ganlyn o'r adroddiad:

- Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos tuedd gyffredinol ar i lawr, gyda'r ffigur cymedrig yn 14.5% (i lawr o 22.6%).
- Fodd bynnag, gwelwyd tuedd ar i fyny/ehangu'r bwlch dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yr hyn a awgrymwyd ar gyfer hyn oedd, er bod merched yn cynrychioli tri chwarter y gweithlu, roedd cynrychiolaeth uwch o ddynion yn y chwarter uchaf o gyflogeion. Roedd hyn i'w weld mewn meysydd lle'r oedd cynrychiolaeth uwch yn y bandiau cyflog hyn megis staff meddygol a deintyddol.
- Byddai data bwlch cyflog anabledd ac ethnigrwydd hefyd yn cael ei gyhoeddi.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Trafod pryderon ynghylch y cynnydd cyflog diweddar ar gyfer meddygon ymgynghorol iechyd y cyhoedd ar gontractau meddygol, a greodd fwlch sylweddol o'i gymharu â'r rhai hynny ar gontractau anfeddygol.
- Holi a oedd pwyntiau cyflog cynyddrannol y polisi/gweithdrefn recriwtio yn cael eu dilyn yn briodol. Nododd RA nad oedd y data ar gyfer anghysondebau cyflog wedi bod ar gael mewn adroddiadau blaenorol, ac er bod gweithdrefn mewn lle i ganiatáu i staff newydd wneud cais am gyflog uwch o fewn yr ystod, nid oedd data ar gael ynghylch a oedd mwy o ddynion yn gwneud hyn na merched. Cadarnhaodd RA fod gwaith wedi'i gomisiynu i ddadansoddi hyn.
- Holi beth fyddai ymateb y sefydliad i ganfyddiadau'r adroddiad a pha fecanweithiau oedd yn eu lle i fynd i'r afael â nhw. Nododd RA/NL fod cyfarfod wedi'i gynnal ar gyfer 19 Mawrth i drafod y data hwn gyda'r Tîm Gweithredol Busnes a chytuno ar y camau/camau gweithredu nesaf.
- Holi a oedd y data yn rheoli effaith staff yn gweithio mwy nag oriau safonol yn y dadansoddiad cyflog. Cytunodd RA i ymchwilio'r ymholiad hwn.
- Mynd i'r afael â chwestiwn a gyflwynwyd gan LH ynghylch a oedd digon o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff Band 5 symud ymlaen, yn enwedig ar gyfer aelodau staff Du. Cytunodd NL ac RA i godi hyn allan o'r cyfarfod fel rhan o adolygiad manylach o'r data.

Diolchodd NL i'r Pwyllgor am y sylwadau ar yr adroddiad hwn, cytunodd i adolygu'r ymholiadau fel rhan o'r camau nesaf i fynd i'r afael â'r canfyddiadau allweddol. Byddai hyn yn cael ei drafod gyda'r Tîm Gweithredol a byddai'r Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru maes o law.
**Cam Gweithredu: NL/RA**

Yna rhoddodd RA ddiweddariad ar yr adroddiad Safon Cydraddoldeb Hiliol a dderbyniwyd ym mis Gorffennaf 2023, a oedd yn nodi tri maes roedd angen eu gweithredu a'u monitro. Roedd cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r Pennaeth Strategaeth a Gweithredu i sicrhau bod cynlluniau a chamau gweithredu o hyn yn cael eu hintegreiddio i'r cynllun cydraddoldeb strategol, a byddai'r data'n cael ei drafod gyda'r Tîm

Heb ei gadarnhau

Gweithredol Busnes i'w ddatblygu ymhellach. Holodd y Pwyllgor a oedd cynnig ar gyfer cynllun prentisiaeth o leiafrifoedd ethnig du. Cadarnhaodd RA fod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cynllun prentisiaeth a oedd â'r potensial i dargedu'r rhai hynny o fewn cymunedau lleiafrifol.

Cytunodd y Pwyllgor i **gymeradwyo** Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024 i'w gyhoeddi.

| **PODC 5/2024.10.21** | **Diweddariad ar y Gymraeg** |
|---|---|

Darparodd RA ddiweddariad ar ddarpariaeth y Gymraeg o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn ymdrin â sut yr oedd rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni, y camau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd a nodau ar gyfer datblygiad pellach. Tynnodd RA sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gwelliannau i'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg, megis caffael contract fframwaith a recriwtio rheolwr cyfieithu.
- Cynnydd parhaus ar y gwaith i leihau diffyg cydymffurfio ar draws ystâd y we, a fyddai'n cael ei gefnogi gan gyfnod peilot yr Hwb Llywodraethu.
- Nododd NL y digwyddiadau a fyddai'n digwydd dros Wythnos y Gymraeg (3 – 7 Mawrth).

Gofynnodd KY a allai staff ddiweddaru eu gallu Cymraeg cofnodedig trwy gydol y flwyddyn. Cadarnhaodd RA y gellid gwneud hyn trwy ESR ac anogir hyn gan rwydwaith Ymlaen .

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydliad dwyieithog, sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg o ansawdd da i'n cwsmeriaid, partneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru, fod ganddo raglenni gwaith ar waith i wella hyn a, lle rydym yn wynebu heriau o ran bodloni deddfwriaeth, ein bod yn ymdrechu i fynd i'r afael â nhw mewn ffordd gynlluniedig a systemig.

**Llywodraethu, Atebolrwydd a Risg**

| **PODC 6** | **Rheoli Risg** |
|---|---|
| **PODC 6.1/ 2024.10.21** | **Cofrestr Risg Strategol (Risg 4)** |

Rhoddodd DG ddiweddariad ar sefyllfa reoli risg strategol 4 ar 1 Rhagfyr 2024. Nododd DG mai dyma'r fersiwn a gadarnhawyd ddiwethaf gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2024. Tynnodd DG sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Ni fu unrhyw symudiad yn y proffil risg strategol trosfwaol ers y cyfnod adrodd diwethaf, fodd bynnag cymerwyd camau sylweddol i adolygu risgiau strategol mewn perthynas â'r mapiau llwybr.
- Mae dadansoddiad bwlch wedi'i wneud ac wedi'i gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes.
- Adroddwyd am newid mewn perthynas â risg corfforaethol 1708 (lleihad mewn capasiti rheng flaen oherwydd salwch staff).

Heb ei gadarnhau

Dywedodd NL fod gwaith wedi mynd rhagddo ers yr adroddiad, a bod y camau gweithredu yn erbyn Risg Strategol 4 yn parhau i fod ar darged. Nododd NL hefyd y byddai’r amserlenni ar gyfer adolygu a chyflawni’r Strategaeth Pobl ddiwygiedig yn cael ei hymestyn i fis Mehefin 2025, yn sgil gwaith ymgysylltu pellach i’w wneud, megis cynnwys data o’r arolwg staff.

Holodd KL a oedd unrhyw waith wedi'i wneud i fynd i'r afael â phwynt gweithredu 4.9 ynghylch y llinell sylfaen cydraddoldeb. Cadarnhaodd NL fod darn allanol o waith ar y gweill i edrych ar y sefyllfa bresennol a gwneud argymhellion.

Diolchodd KY i DG/NL am y diweddariad. Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Risgiau Strategol a chafodd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Strategol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **PODC 6.2/ 2024.10.21** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |
|---|---|

Darparodd DG ddiweddariad ar y gofrestr Risg Corfforaethol a nododd ei adolygiad gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei sefyllfa bresennol ar 23 Ionawr 2025.

Tynnodd DG sylw at bwyntiau allweddol o’r adroddiad:
- Ni ychwanegwyd unrhyw risgiau newydd at y gofrestr ac nid oedd unrhyw risgiau wedi'u huwchgyfeirio/isgyfeirio.
- Diweddariad i risg 1541 na fydd efallai gan Iechyd Cyhoeddus Cymru y capasiti na’r adnoddau angenrheidiol i gyflawni’r cynllun strategol hirdymor yn effeithiol.

Nododd KY i’r Pwyllgor fod proses wedi’i chytuno bellach ar gyfer gwiriadau DBS.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Corfforaethol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **PODC 6.3/ 2024.10.21** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol** |
|---|---|

Darparodd LB drosolwg o adran Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/25, a oedd yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor. Byddai’r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2025 i roi sicrwydd bod y Pwyllgor yn cyflawni ei Gylch Gorchwyl.

Canmolodd y Pwyllgor y cwmpas eang o waith a wnaed yn ystod 2024/25 a nododd waith caled cydweithwyr i gyflawni hyn.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- **Ystyried** Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ar gyfer 2024/25 oedd yn crynhoi'r meysydd allweddol o weithgarwch busnes a gyflawnwyd.
- **Nodi** y bydd yr adroddiad drafft yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror a chytuno i'r fersiwn terfynol gael ei gytuno gyda Chadeirydd y Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.

Heb ei gadarnhau

- **Argymell** yr adroddiad (yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt gyda'r Cadeirydd) i'r Bwrdd i roi sicrwydd bod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn addas i'r diben ac yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei gylch gorchwyl.

| PODC 7/ 2024.10.21 | Adroddiad Blynyddol Codi Llais heb Ofn |
|---|---|

Darparodd PV drosolwg o'r Adroddiad Blynyddol Codi Llais Heb Ofn cyntaf ers ei fabwysiadu gan y Bwrdd ym mis Hydref 2023, a nododd y nod i greu fframwaith lle gellid casglu a rheoli cwynion a phryderon yn briodol.

Nododd PV fod pedwar pryder wedi'u codi yn ystod y deuddeg mis diwethaf, a oedd yn dangos newid diwylliannol cadarnhaol lle roedd staff yn teimlo'n gyfforddus i godi llais. Tynnodd PV sylw hefyd at y gwaith a wnaed i ymgorffori adborth o'r arolwg staff ar godi pryderon yn y fframwaith hwn.

Trafododd y Pwyllgor yr angen am ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella ar ôl i'r pryderon hyn gael eu codi. Nododd PV fod y prif lwybr hwn yn caniatáu i bryderon a chwynion gael eu trin a mynd i'r afael â nhw'n briodol fel nad oedd meysydd o bryder a chyfleoedd datblygu mwy yn cael eu colli.

**Ystyriwyd** yr Adroddiad Blynyddol Codi Llais Heb Ofn gan y pwyllgor a chafodd **sicrwydd** fod rheoli codi llais heb ofn yn y sefydliad.

| PODC 8/ 2024.10.21 | Polisïau Corfforaethol |
|---|---|
| PODC 8.1/ 2024.10.21 | Polisïau i'w cymeradwyo |

Cyflwynodd LB y polisïau canlynol i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo:

- Pensiynau Hyblyg Cymru Gyfan
- Cymorth Colli Beichiogrwydd Cymru Gyfan
- Gwerthuso Swyddi Cymru Gyfan
- Parch a Datrys Cymru Gyfan
- Polisi Recriwtio a Dethol
- Gweithdrefn ar gyfer Adrodd Pryderon Addasrwydd i Ymarfer Posibl i Gyrff Rheoleiddio ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol cofrestredig

Cadarnhaodd LB fod yr holl bolisïau wedi'u cymeradwyo i'w cyflwyno i'r Pwyllgor gan y Tîm Arwain a'u bod wedi bod drwy'r broses ymgynghori briodol.

Holodd y Pwyllgor faint o ddylanwad oedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddatblygiad polisïau Cymru Gyfan, megis rhoi adborth ar ôl i asesiadau effaith gael eu cwblhau. Nododd NL fod byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru yn rhan o'r trafodaethau ymgynghori ac y gallent roi adborth ar heriau penodol, ond oherwydd maint y gweithlu ledled Cymru y gallai fod yn anos cyflawni polisïau cynnil.

Holodd y Pwyllgor hefyd a oedd data economaidd-gymdeithasol yn cael ei dracio er mwyn dangos ei effaith ar bolisïau megis Recriwtio a Dethol. Cytunodd NL i godi'r ymholiad hwn all-lein a diweddaru'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Heb ei gadarnhau

Cytunodd y Pwyllgor:

- **Ystyried** pob un o'r polisïau atodedig a'r wybodaeth a gynhwyswyd gyda'u Hasesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (HEIAs) priodol
- **Nodi** bod y Tîm Arweinyddiaeth yn cymeradwyo'r polisïau i'r Pwyllgor
- **Cymeradwyo** y:
    - Pensiynau Hyblyg Cymru Gyfan
    - Cymorth Colli Beichiogrwydd Cymru Gyfan
    - Gwerthuso Swyddi Cymru Gyfan
    - Parch a Datrys Cymru Gyfan
    - Polisi Recriwtio a Dethol
    - Gweithdrefn ar gyfer Adrodd Pryderon Addasrwydd i Ymarfer Posibl i Gyrff Rheoleiddio ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol cofrestredig

**Partneriaethau ac Ymgysylltu**

**Dim**

Roedd diweddariad sylweddol Partneriaethau ac Ymgysylltu nesaf i'w gynnal yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn unol â'r cynllun gwaith y cytunwyd arno.

Nododd y Pwyllgor fod cyfeiriad at bapur yn adran i'w nodi yr agenda yn ymwneud â'r Fforwm Partneriaeth Lleol (LPF).

**Er Gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| **PODC 9/2024.10.21** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PODC 9.1/ 2024.10.21** | **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu** |

Dim.

| | |
|---|---|
| **PODC 9.2/ 2024.10.21** | **Y Gweithlu a Chynllunio’r Gweithlu** |

- **Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad Mis 9 – detholiad o'r gweithlu**
- **Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad – detholiad o'r gweithlu**

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** a **chael sicrwydd** ar berfformiad a threfniadau llywodraethu'r sefydliad, cynnydd yn erbyn cyflawni ei strategaeth gan gynnwys darparu/adfer gwasanaethau a rhaglenni allweddol.
- **Ystyried** a **chael sicrwydd** ynghylch y diweddariad newydd a gyflwynwyd ar anghydraddoldebau, gan gynnwys y dull sefydliadol o ymdrin â'r Rhaglen Anghydraddoldebau Iechyd a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Is-grŵp Data, Dadansoddi a Gwerthuso.

| | |
|---|---|
| **PODC 9.3/ 2024.10.21** | **Partneriaethau ac Ymgysylltu** |

Nododd y Pwyllgor y diweddariad ar Ddiweddariad Fforymau Gwaith Partneriaeth Undebau Llafur a ddarparwyd er gwybodaeth.

| PODC 9.4/ 2024.10.21 | **Llywodraethu, Atebolrwydd a Risg** |
|---|---|
| **Traciwr Argymhellion Archwilio**<br>• Nododd y Pwyllgor y diweddariadau i'r Traciwr Camau Gweithredu Archwilio sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.<br><br>**Cynllun Gwaith y Pwyllgor**<br>Nododd y Pwyllgor y Cynllun gwaith a nododd y bydd cynllun gwaith y flwyddyn nesaf yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor yn dilyn gweithdy adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor ym mis Chwefror, i'w gymeradwyo yng nghyfarfod mis Ebrill. | |
| **PODC 6/2024.10.21** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
| Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod i Uned Fusnes y Bwrdd.<br><br>Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.<br><br>Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 29 Ebrill 2025. | |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12:01 | |

Heb ei gadarnhau